

CYNGOR SIR DDINBYCH

Polisi a Threfnau Corfforaethol i Weithwyr Cyngor Sir Ddinbych ar Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000

DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000

TUDALEN GYNNWYS

| | <u>Rhif Tudalen</u> |
|--|---------------------|
| Rhagair | |
| Pennod 1 – Cyflwyniad | 3 |
| Pennod 2 – Diffinio'r Prif Dechnegau Gwyliadwriaeth | 6 |
| Pennod 3 – Trefnau ar gyfer Awdurdodi Cuddwyllo | 11 |
| Pennod 4 – Hyd, Adolygu a Dileu Awdurdodiadau | 18 |
| Pennod 5 – Hawl i Weld Data Cyfathrebu ac Ymchwilio i Wybodaeth Electronig Warchoddedig | 19 |
| Pennod 6 – Awdurdodiadau Teledu Cylch Cyfyng a DRhPY | 22 |
| Pennod 7 – Craffu a Chwynion | 23 |
| | |
| Atodiad 1 – Rhestr Wirio Sicrhau Ansawdd DRhPY | 24 |
| Atodiad 2 – Ffurflen Asesu Risg Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol | 27 |
| Atodiad 3 – Cais am Gymeradwyaeth gan Ynadon | |

RHAGAIR

Mae'r ddogfen Polisi a Threfnau Corfforaethol hon wedi'i llunio i'w defnyddio gan Weithwyr Cyngor Sir Ddinbych ac unrhyw gontractwyr perthnasol sy'n cael eu defnyddio gan y Cyngor. Bydd amod yn holl gontractau perthnasol y Cyngor fod unrhyw Gontractwr sy'n gweithredu ar ran y Cyngor i gydymffurfio â'r polisi hwn. Rhaid i'r holl Swyddogion ddilyn y darpariaethau sydd ynddo, lle bônt yn gymwys. Hefyd, rhaid i bob gweithiwr ddefnyddio'r Ffurflenni Awdurdodi sydd ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref i ddibenion awdurdodi a'r ffurflenni hynny'n unig.

Datblygwyd y polisi hwn drwy ymgynghori â chynrychiolwyr yr holl adrannau sy'n cyflawni gwylidwriaeth. Mae'r polisi hwn yn disodli unrhyw bolisi a threfnau blaenorol. Gwneir trefniadau i gopi o'r polisi hwn ynghyd â Chodau Ymarfer y Swyddfa Gartref a thafleddi'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio fod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn swyddfeydd y Cyngor. Mae'r polisi ar gael hefyd ar wefan y Cyngor.

Yn ogystal â hyn, bydd copi o'r ddogfen hon ar gael yn rhwydd i'r holl weithwyr, a bydd copi ar gael yng Nghanolfan Wybodaeth Sir Ddinbych. Mae'r Polisi hwn wedi'i ddarparu yn Gymraeg a Saesneg, a gellir cyflwyno unrhyw sylwadau am ei gynnwys i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd/Swyddog Monitro sydd hefyd yn Uwch Swyddog Cyfrifol y Cyngor mewn perthynas â DRhPY.

Os oes unrhyw agwedd ar y ddogfen hon nad yw'n glir i chi, yna dylech gysylltu â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd.

Bydd angen i unrhyw fân ddiwygiadau i'r polisi hwn gael eu cymeradwyo gan y Gweithgor DRhPY. Bydd angen i unrhyw ddiwygiadau sylweddol i'r polisi gael eu cymeradwyo hefyd gan Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Chabinet y Cyngor.

Ionawr 2019

PENNOD 1: CYFLWYNIAD

1.1 Daeth Deddf Hawliau Dynol 1998 yn rhan o gyfraith y DU ar 2 Hydref 2000, gan ei gwneud yn anghyfreithlon i “awdurdod cyhoeddus” (sy’n cynnwys Awdurdod Lleol) dorri unrhyw Erthygl yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Roedd y Ddeddf hefyd yn darparu bod unrhyw berson sydd wedi dioddef o ganlyniad i dorri'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn cael ceisio iawn yn llysoedd domestig y DU, heb orfod mynd â hawliad drwy'r broses ddrud a hirfaith yn Llys Hawliau Dynol Ewrop yn Strasbourg.

Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn ar Hawliau Dynol yn cael effaith sylweddol ar Awdurdodau Lleol ac ar eu ffyrdd o weithredu. Mae'r Erthygl yn datgan fel a ganlyn:

“everyone has the right to respect for his private and family life, his home and his correspondence”

Yn syml, rhaid i'r “awdurdod cyhoeddus” beidio ag ymyrryd mewn unrhyw ffordd ag arfer yr hawl hon ac eithrio lle mae hynny'n unol â'r gyfraith ac yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd unrhyw un o'r canlynol:-

- Diogelwch Gwladol
- Diogelwch Cyhoeddus
- Lles Economaidd y Wlad
- Atal Troseddu ac Anhrefn
- Diogelu Iechyd neu Foesau
- Diogelu Hawliau a Rhyddid Pobl Eraill

Yn ogystal â hyn, dylai unrhyw ymyrryd â hawliau Erthygl 8 fod yn ymyrryd cymesur o dan yr amgylchiadau.

Er 5 Ionawr 2004, yr unig sail i awdurdodi Gwyliadwriaeth dan Gyfarwyddyd gan awdurdod lleol yw er mwyn atal neu ddarganfod troseddu neu atal anhrefn. Mae newidiadau a gafwyd wedyn mewn deddfwriaeth yn pennu hefyd fod rhaid bodloni'r prawf ‘trosedd difrifol’; gweler adran 2.7 o'r polisi hwn.

1.2 Pryd bynnag y mae person yn ymgymryd â chuddwyllo ar ran Awdurdod Lleol, mae'n ei roi ei hun mewn perygl o dorri Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, oni bai fod modd cyfiawnhau'r cuddwyllo hwnnw ar y sail ei fod yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith, ei fod yn angenrheidiol i'r diben sydd wedi'i nodi uchod (h.y. atal neu ddarganfod troseddu neu atal anhrefn), a hefyd ei fod y gam cymesur i'w gymryd.

1.3 Pasiwyd Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (DRhPY) gan y Senedd a daeth i rym ar 25 Medi 2000. Mae'r Ddeddf hon yn rheoleiddio cuddwyllo ac ymchwilio gan nifer o gyrff – gan gynnwys Awdurdodau Lleol. Un o brif ddibenion y Ddeddf yw sicrhau bod hawliau dynol unrhyw berson sy'n wrthrych cuddwyllo yn cael eu diogelu. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf hefyd yn sicrhau bod swyddogion ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn cael y pwerau sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith yn briodol a chyflawni gwyliadwriaeth yn effeithiol.

1.4 Pwrpas y ddogfen hon yw egluro effaith DRhPY ar drefnau Cyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â gweithgareddau gwyliadwriaeth a rhoi gwybod i weithwyr am yr amgylchiadau lle gallai darpariaethau'r Ddeddf fod yn gymwys. Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad i swyddogion mewn perthynas â'r trefnau i'w dilyn wrth ymgymryd â chuddwylio. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r Codau Ymarfer diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref a dylai Swyddogion roi sylw i'r Codau wrth ystyried yr arfer ar eu pwerau gwyliadwriaeth o dan DRhPY 2000. Y Codau sy'n berthnasol i Awdurdod Lleol yw:

Covert Surveillance and Property Interference Revised Code of Practice 2018
Covert Human Intelligence Sources Code of Practice 2018

Mae copïau o'r codau ymarfer hyn ar gael gan bob Swyddog Awdurdodi sydd wedi'i restru ym mhennod 3, gan adran Gyfreithiol y Cyngor neu'n uniongyrchol ar wefan y Swyddfa Gartref yn www.homeoffice.gov.uk

Dylai'r Cyngor roi sylw hefyd i'r Trefnau diwygiedig canlynol:

- Trefnau a Chanllawiau Swyddfa'r Comisiynwyr Arwylio – Trefniadau goruchwylio ar gyfer cuddwylio ac ymyrraeth ag eiddo a gyflawnir gan awdurdodau cyhoeddus ac ar weithgareddau gan ffynonellau perthnasol a gyhoeddwyd yn Gorffennaf 2016. Mae copi ar gael gan yr adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ac mae copïau caled wedi'u cylchredeg hefyd ymysg aelodau Gweithgor DRhPY y Cyngor. Nid yw'r ddogfen ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref felly cewch ofyn am gael copi gan eich rheolwr llinell neu'r adran Gwasanaethau Cyfreithiol.
- Cod y Comisiynydd Gwybodaeth '*In the Picture – A Data Protection Code of Practice for Surveillance Cameras and Personal Information*'.
- Cod Ymarfer Camerâu Gwyliadwriaeth y Swyddfa Gartref.

1.5 Mae'n bwysig nodi, os bydd y Cyngor yn gwneud unrhyw waith cuddwylio a'i fod yn dod o dan ddarpariaethau DRhPY, fod rhaid dilyn y trefnau awdurdodi sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 3 cyn i'r cuddwylio ddigwydd. Byddai methu â gwneud hynny'n gallu arwain at gamau disgyblu. Bydd y camau i gael awdurdodiad priodol ar gyfer gwyliadwriaeth yn helpu i ddiogelu'r Cyngor a'i swyddogion rhag cwynion am ymyrraeth â hawliau dynol unigolion, a byddant hefyd yn sicrhau bod unrhyw dystiolaeth a geir o wylidwriaeth yn dderbyniadwy mewn Llys Barn.

1.6 Hawl i Weld Data Cyfathrebu

Yn ogystal â hyn, mae pwerau gan y Cyngor i gael hawl i weld data cyfathrebu. Gwybodaeth yw hon sy'n cael ei dal gan ddarparwyr gwasanaethau post a thelathrebu am y defnydd o'u gwasanaethau gan bersonau sy'n destun ymchwiliad i drosedd. Wrth arfer y pwerau hyn, rhaid i Swyddogion roi pob sylw i'r Codau Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref:

Cod Ymarfer ar gyfer Caffael a Datgelu Data Cyfathrebu (Mawrth 2015) a Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Data Cyfathrebu (Mawrth 2015) sydd ar gael yn www.homeoffice.gov.uk neu gan y Pwynt Cyswllt Sengl (PCS) sydd wedi'i enwebu gan y Cyngor.

Yn yr un modd â Chuddwylio, rhaid cael awdurdodiad i weld data cyfathrebu gan Swyddog Awdurdodi Dynodedig drwy PCS y Cyngor. Mae canllawiau penodol ar y trefnau hyn ym Mhennod 5.

1.7 Amgryptio

Daeth Rhan 3 o DRhPY 2000 i rym yn Hydref 2007 i ddarparu fframwaith statudol sy'n caniatáu i bob awdurdod cyhoeddus fynnu bod gwybodaeth electronig y mae wedi'i chael neu y mae'n debygol o'i chael yn gyfreithlon, yn cael ei rhoi ar ffurf ddealladwy, a chael modd i weld gwybodaeth warchoddedig a rhoi'r wybodaeth honno ar ffurf ddealladwy. Un enghraifft o hyn yw lle mae'r Cyngor yn atafaelu gliniadur a all gynnwys gwybodaeth warchoddedig a allai fod o gymorth i erlyn. Cyflawnir hyn drwy gael cymorth gan y Ganolfan Cymorth Technegol Genedlaethol (NTAC), y bydd yn rhaid cysylltu â hi ar y cyfle cyntaf os yw'r Cyngor yn ystyried arfer y pwerau hyn. Wrth weithredu, bydd achos yn cael ei gyflwyno i NTAC, a fydd yn ystyried dichonolrwydd yn ymarfer ac yn ei gostio. Bydd NTAC yn helpu'r Cyngor yn y broses hon er mwyn sicrhau bod y pwerau hyn o dan Ran 3 yn cael eu harfer yn briodol.

Mae Cod Ymarfer Diwygiedig Gwybodaeth Electronig Gwarchoddedig (Awst 2018) yn nodi mai NTAC yw'r gwarcheidwad a'r porthor ('guardian and gatekeeper') ar gyfer defnyddio Rhan 3 ac os yw unrhyw Swyddog yn ystyried defnyddio'r pwerau hyn, dylai gyfeirio at God Ymarfer y Swyddfa Gartref sydd ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref – www.homeoffice.gov.uk

Mae canllawiau penodol ar y trefnau hyn ym Mhennod 5.

PENNOD 2: DIFFINIO'R PRIF DECHNEG AU GWYLIADWRIAETH SY'N CAEL EU RHEOLEIDDIO O DAN DRhPY

2.1 Gwyliadwriaeth

Y diffiniad o wylidwriaeth (“surveillance”) yn y Ddeddf yw monitro, arsylwi neu wrando ar bersonau, gwyllo neu ddilyn eu symudiadau, gwranddo ar eu sgysiau neu eu gweithgareddau neu gyfathrebiadau eraill. Gall hefyd gynnwys recordio unrhyw beth sy'n destun monitro, arsylwi neu wrando yn ystod gwyliadwriaeth. Gellir cynnal gwyliadwriaeth gyda chymorth dyfais neu hebdo.

Er enghraifft, ni fydd gosod camerâu teledu cylch cyfyng i arsylwi'n gyffredinol ar weithgarwch mewn ardal benodol yn “wylidwriaeth” oni bai fod y camera teledu cylch cyfyng yn cael ei ddefnyddio i dargedu person penodol. Os oes ansicrwydd mewn unrhyw achos, dylai swyddogion ofyn am gyngor gan Swyddogion Awdurdodi eu hadran a fydd yn eu tro'n ymgynghori â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd os bydd arnynt angen rhagor o eglurhad neu arweiniad.

2.2 Cuddwyllo

Bydd y wylidwriaeth yn “guddwyllo” os bydd yn cael ei wneud mewn ffordd sydd â'r bwriad o sicrhau y bydd y person(au) sy'n wrthrych i'r wylidwriaeth yn anymwybodol ei bod neu y gall fod yn digwydd. Os yw'r wylidwriaeth yn agored a heb ei chuddio rhag gwrthrychau'r wylidwriaeth, ni fydd y wylidwriaeth yn cael ei hystyried yn guddwyllo fel arfer. Mae'n bwysig nodi bod DRhPY yn gymwys i guddwyllo'n unig felly mae'n hanfodol ystyried ar y dechrau a ydych yn ymgymryd â chuddwyllo neu beidio.

2.3 Gwyliadwriaeth Ymwthiol

Mae hwn yn fath o guddwyllo sy'n cael ei reoleiddio gan DRhPY.

Yn ôl y diffiniad yn y Ddeddf, gwyliadwriaeth ymwthiol (“intrusive surveillance”) yw cuddwyllo (gweler 2.2 uchod) sy'n cael ei gyflawni mewn perthynas ag unrhyw beth sy'n digwydd mewn unrhyw fangre breswyl neu mewn unrhyw gerbyd preifat, ac mae'n golygu bod unigolyn yn bresennol o fewn y fangre neu yn y cerbyd neu ei fod yn cael ei gyflawni drwy ddyfais gwyllo.

Mae'n hollbwysig nodi nad yw DRhPY yn rhoi pŵer i Awdurdodau Lleol i gyflawni gwyliadwriaeth ymwthiol. Os bydd Awdurdod Lleol yn ymgymryd â gwyliadwriaeth o'r math hwn, bydd yn gweithredu y tu allan i gwmpas ei bwerau. Os ydych yn credu bod eich gweithgaredd gwyliadwriaeth arfaethedig yn un a allai fod yn gyson â'r diffiniad o “wylidwriaeth ymwthiol”, rhaid i chi beidio â mynd ymlaen â'r wylidwriaeth. Os oes angen cymorth arnoch i bennu a allech fod yn cynnal gwyliadwriaeth ymwthiol, gofynnwch am gyngor gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd.

2.4 Gwyliadwriaeth dan Gyfarwyddyd

Mae hwn yn ddull hanfodol o wylidwriaeth sy'n effeithio ar Awdurdodau Lleol. Mae hon yn wylidwriaeth sy'n gudd, ond sydd heb fod yn ymwthiol, ac mae'n cael ei chynnal i

ddibenion ymchwiliad neu weithrediad penodol. Cyflawnir y wylidwriaeth mewn modd sy'n debygol o arwain at gael "gwybodaeth breifat" am berson neu bersonau. Mae gwyliadwriaeth dan gyfarwyddyd yn golygu gwylio person neu bersonau gyda'r bwriad o gasglu gwybodaeth breifat amdanynt er mwyn creu darlun manwl o'u bywyd, gweithgareddau a/neu'r bobl y maent yn ymwneud â nhw. Ni fydd yn cynnwys cael mynediad i eiddo neu ymyrryd ag ef, ond gallai gynnwys y defnydd o gyfarpar ffotograffig neu fideo (gan gynnwys teledu cylch cyfyng).

Cyn cynnal gwyliadwriaeth dan gyfarwyddyd, bydd angen i chi ystyried ystyr "gwybodaeth breifat". Mae gwybodaeth breifat yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â bywyd preifat neu deuluol y person, felly mae'n ddiffiniad cynhwysfawr iawn. Mae Deddf 2000 yn datgan bod gwybodaeth breifat yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â bywyd preifat neu deuluol y person. *Fel arfer, dylid cymryd bod gwybodaeth breifat yn cynnwys unrhyw agwedd ar berthynas breifat neu bersonol y person â phobl eraill, gan gynnwys perthnasoedd teuluol a phroffesiynol neu fusnes.*

Er y gallai person ddisgwyl cael llai o breifatrwydd wrth fod mewn lle cyhoeddus, fe fyddai cuddwyllo gweithgareddau'r person hwnnw mewn lle cyhoeddus yn gallu arwain at gael gwybodaeth breifat. Mae hyn yn debygol o fod yn wir lle mae gan y person hwnnw ddisgwyliad rhesymol i gael preifatrwydd er ei fod yn gweithredu mewn lle cyhoeddus a lle mae awdurdod cyhoeddus yn gwneud recordiad o weithgareddau'r person hwnnw i'w ystyried neu ei ddadansoddi yn y dyfodol. Dylid trin gwyliadwriaeth yn yr ardaloedd o'r rhyngwyd sy'n hygyrch i'r cyhoedd mewn modd tebyg, gan gydnabod bod disgwyliad o breifatrwydd dros yr wybodaeth sydd ar y rhyngwyd, yn arbennig wrth edrych ar wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol neu ar wefannau fel fforymau.

Mae ystyriaethau o ran bywyd preifat yn debygol iawn o godi os yw nifer o recordiadau i gael eu dadansoddi gyda'i gilydd er mwyn cadarnhau patrwm o ymddygiad, er enghraifft, neu os ceir gafeol ar un neu ragor o ddarnau o wybodaeth (pa un a ydynt ar gael i'r cyhoedd neu beidio) yn gudd (neu mewn rhai achosion yn agored) er mwyn gwneud cofnod parhaol am berson neu ar gyfer prosesu data wedyn i gael rhagor o wybodaeth. Mewn amgylchiadau o'r fath, gall y cyfan o'r wybodaeth a gesglir fod yn wybodaeth breifat hyd yn oed os nad yw'r cofnodion ar eu pen eu hunain yn wybodaeth breifat. Os yw ymddygiad o'r fath yn cynnwys gwyliadwriaeth, gellid ystyried ei bod yn briodol cael awdurdodiad ar gyfer gwyliadwriaeth dan gyfarwyddyd.

Gall gwybodaeth breifat gynnwys data personol, fel enwau, rhifau ffôn a chyfeiriadau. Os ceir gwybodaeth o'r fath drwy guddwyllo person sydd â disgwyliad rhesymol o breifatrwydd, bydd yn briodol cael awdurdodiad ar gyfer gwyliadwriaeth dan gyfarwyddyd.

Mae Cod Ymarfer diwygiedig Cuddwyllo ac Ymyrraeth ag Eiddo (Awst 2018) yn rhoi enghreifftiau ymarferol o beth sy'n wybodaeth breifat ac efallai bydd swyddogion am edrych ar dudalennau 15 i 17 y ddogfen honno sydd ar gael ar dudalennau DRhPY gwefan y Swyddfa Gartref.

Defnyddio Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol

Gall defnyddio'r rhyngwyd a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol fel rhan o ymchwiliad, fodd bynnag mae'n bwysig fod rhain yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon.

Nid yw'n bosib darparu rhestr benodol o safleoedd rhwydweithio cymdeithasol; ond maent yn cynnwys safleoedd fel Facebook, Twitter, LinkedIn, Instagram, YouTube a blogiau. Mae'n bosib cael gwybodaeth breifat wrth gael mynediad at wefannau a ddefnyddir i

hysbysebu nwyddau a gwasanaethau. Rhaid i chi felly gofio'r ffaith y gallai defnyddio'r we a'r safleoedd rhwydweithiau cymdeithasol fod yn gyfystyr â gwyliadwraeth dan gyfarwyddyd, ac y gallai fod angen awdurdodiad.

Os byddwch yn penderfynu bod angen mynediad at broffil rhwydweithio cymdeithasol / tudalen unigolyn er mwyn cael barn gychwynnol a oes unrhyw sail i honiad neu fater sy'n cael ei ymchwilio; rhaid i'r golwg cychwynnol hwn fod yn rhesymol ac yn gymesur. Er enghraifft, ni fyddai'n rhesymol nac yn gymesur treulio cyfnod sylweddol o amser yn edrych drwy dudalennau proffil ar-lein neu'n tynnu ac yn cofnodi deunydd, rhag ofn iddo fod yn ddefnyddiol ar gyfer eich ymchwiliad.

Mae disgwyliad rhesymol o breifatrwydd gan unigolion. Mae'n debyg y bydd angen awdurdodiad ar gyfer gwyliadwraeth dan gyfarwyddyd o bresenoldeb ar-lein unigolyn yn gyson, neu lle mae deunydd yn cael ei dynnu a'i gofnodi yn bwrpasol, beth bynnag fo'r gosodiadau preifatrwydd a sut y'u defnyddir.

Mae'r enghreifftiau canlynol wedi eu cymryd o baragraff 3.15 Cod Ymarfer Diwygiedig Cuddwyllo ac Ymyrraeth ag Eiddo 2018;

Enghraifft 1: Mae swyddog heddlu yn chwilio ar y we am enw, cyfeiriad neu rif ffôn er mwyn darganfod a oes gan unigolyn sy'n destun ymchwiliad bresenoldeb ar-lein. Mae'n annhebygol y bydd angen awdurdodiad ar gyfer hyn. Fodd bynnag, wedi darganfod proffil cyfryngau cymdeithasol neu hunaniaeth ar-lein unigolyn, y penderfynir ei fonitro neu dynnu gwybodaeth ohono i'w gadw gan ei fod yn berthnasol i ymchwiliad neu weithrediad, dylid ystyried cael awdurdodiad.

Enghraifft 2: Mae swyddog tollau yn gwneud archwiliad cychwynnol o broffil ar-lein unigolyn er mwyn penderfynu a ydynt yn berthnasol i ymchwiliad. Mae'n annhebygol y bydd angen awdurdodiad ar gyfer hyn. Fodd bynnag, os yn ystod yr ymweliad hwnnw y bwriedir tynnu a chofnodi gwybodaeth i sefydlu proffil gan gynnwys gwybodaeth fel hunaniaeth, patrwm byw, arferion, bwriadau neu gysylltiadau, byddai'n ddoeth cael awdurdodiad hyd yn oed ar gyfer yr un ymweliad hwnnw. (Fel y nodir yn y paragraff canlynol, mae'n bosib bod pwrpas yr ymweliad yn berthnasol wrth ystyried a ddylid cael awdurdodiad.)

Enghraifft 3: Mae awdurdod cyhoeddus yn monitro'r we yn gyffredinol mewn amgylchiadau lle nad yw'n rhan o ymchwiliad neu weithrediad penodol, parhaol, er mwyn nodi themâu, patrymau, dangosyddion posib o droseddau neu ffactorau eraill a allai ddylanwadu ar strategaethau gweithredol. Nid oes angen awdurdodiad DRhPY ar gyfer y gweithgarwch hwn. Fodd bynnag, pan fydd y gweithgarwch hwn yn arwain at ddarganfod unigolion o ddiddordeb nad oeddynt yn adnabyddus cyn hynny, unwaith y penderfynir monitro'r unigolion hynny fel rhan o weithrediad neu ymchwiliad parhaol, dylid ystyried awdurdodiad.

Dylai swyddogion gyfeirio at baragraffau 3.10 - 3.17 Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer Cuddwyllo ac Ymyrraeth ag Eiddo 2018, paragraff 28 Gweithdrefnau a Chanllawiau Swyddfa'r Comisiynwyr Arwyllo (Gorffennaf 2016) a dylent ymgynghori ag Uwch-Swyddog Cyfrifol DRhPY am gyngor pellach.

Mae gwyliadwriaeth yn wylidwriaeth dan gyfarwyddyd os yw pob un o'r canlynol yn wir:

- Mae'n guddwyllo, ond nid yn wylidwriaeth ymwithiol
- Mae'n cael ei chynnal i ddibenion ymchwiliad neu weithrediad penodol

- Mae'n debygol o arwain at gael gwybodaeth breifat am berson (pa un a yw'n berson sydd wedi'i enwi'n benodol i ddibenion yr ymchwiliad neu weithrediad neu beidio)
- Mae'n cael ei chynnal mewn ffordd heblaw fel ymateb syth i ddigwyddiadau neu amgylchiadau lle na fyddai'n rhesymol ymarferol ceisio awdurdodiad o dan Ran II o Ddeddf 2000.
- Felly byddai'r cuddwyllo cynlluniedig ar berson penodol, os nad oedd yn ymwithiol, yn wylidwriaeth dan gyfarwyddyd os yw gwylidwriaeth o'r fath yn debygol o arwain at gael gwybodaeth breifat am y person hwnnw, neu unrhyw berson arall.

Sylwer na fyddai gwylidwriaeth dan gyfarwyddyd yn cynnwys ymateb syth i ddigwyddiadau (e.e. darganfod rhywbeth amheus drwy hap a damwain a pharhau i wyllo). Fodd bynnag, mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i geiswyr roi sylw i baragraff 4.17 a'r trefnau brys os byddwch yn *parhau* i wyllo pan ddylech fod wedi cael awdurdodiad llafar brys.

Rhaid rhoi cynnig yn gyntaf ar bob dull rhesymol arall o ddatrys sefyllfa fel cyfweliad, newid dulliau gweithio neu lefelau diogelwch os yw'n briodol, er enghraifft.

Os yw gwrthrych y cuddwyllo'n gyflogai i'r Cyngor, sy'n destun ymchwiliad i fater troseddol, rhaid hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd.

2.5 Ffynonellau Cuddwybodaeth Dynol

Mae'r diffiniad o "ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol" yn ddiffiniad hanfodol arall yn DRhPY a all effeithio ar weithgareddau Awdurdod Lleol. Bydd person yn Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol os yw'n sefydlu neu'n cynnal perthynas bersonol neu berthynas o fath arall â pherson i'r diben cudd o:

- Gael gwybodaeth am berson arall, neu
- Gael gweld gwybodaeth am berson arall, neu
- Ddatgelu gwybodaeth a gafwyd drwy ddefnyddio perthynas o'r fath neu o ganlyniad iddi.

Bydd y diben yn "gudd" yn y cyswllt hwn os yw'r berthynas yn cael ei chynnal mewn ffordd sy'n golygu nad yw un o'r partïon i'r berthynas yn ymwybodol o'r diben sydd y tu ôl i'r berthynas honno.

Byddai gwylidwriaeth o'r math hwn yn gallu digwydd, er enghraifft, lle mae gweithiwr proffesiynol yn cael gwybodaeth am berson heb i'r person hwnnw ddeall y gwir reswm dros gasglu'r wybodaeth honno a heb iddo wybod bod gweithiwr proffesiynol yn ceisio cael y wybodaeth dan sylw. Bydd hyn yn cynnwys y defnydd o dystion proffesiynol i gael gwybodaeth a thystiolaeth.

a) Pryniannau Prawf

Fel arfer nid yw'r rhain yn galw am ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol oherwydd fel arfer ni fydd angen i'r prynwr sefydlu perthynas â'r cyflenwr wrth wneud pryniant cudd gyda'r diben cudd o gael gwybodaeth. Rhaid cofio, fodd bynnag, y byddai meithrin perthynas â pherson mewn siop i gasglu gwybodaeth am rai sy'n cyflenwi cynnyrch anghyfreithlon i'r gwerthwr yn golygu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

b) Gweithgareddau ymddygiad gwrthgymdeithasol

Fel arfer ni fydd personau sy'n cwyno am ymddygiad gwrthgymdeithasol ac y gofynnir iddynt gadw log sŵn yn Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol am nad yw'n ofynnol iddynt sefydlu neu gynnal perthynas i ddiben cudd. (Fodd bynnag, os gofynnir i'r achwynydd gofnodi gwybodaeth bersonol ar ffurf dyddiadur manwl am y rheini sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol, mae'n bosibl y gellid ystyried person o'r fath yn un sy'n cynnal gwylidwriaeth dan gyfarwyddyd, gan weithredu fel asiant i ni, ac y gallai fod yn ofynnol cael awdurdodiad ar ei gyfer yn ôl yr amgylchiadau. Os nad ydych yn sicr, gofynnwch am gyngor gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.)

2.6 Personau a ddefnyddir fel Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol

Gall y Cyngor ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol os bydd yn dilyn y trefnau awdurdodi DRhPY sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 3. Fodd bynnag, dylai Swyddogion ystyried bob amser a yw'r person sydd i'w ddefnyddio fel Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn berson addas, gan ystyried y canlynol:-

a) Ffynonellau Ifanc

Rhaid dilyn mesurau diogelwch arbennig wrth ddefnyddio personau sydd o dan 18 mlwydd oed. Dim ond y Prif Weithredwr (neu Gyfarwyddwr Corfforaethol yn absenoldeb y Prif Weithredwr) a all awdurdodi'r defnydd o ffynhonnell ifanc. Rhaid peidio byth â defnyddio plentyn sydd o dan 16 flwydd oed i roi gwybodaeth am ei riant.

b) Unigolion sy'n Agored i Niwed

Y rhain yw personau sydd neu a allai fod ag angen gofal cymunedol oherwydd oed, salwch neu anabledd arall. Dylid osgoi defnyddio ffynonellau o'r fath a, beth bynnag, dim ond y Prif Weithredwr (neu Gyfarwyddwr Corfforaethol yn absenoldeb y Prif Weithredwr) a all awdurdodi hyn.

Nid yw'r Cyngor yn arfer recriwtio Ffynonellau Cuddwybodaeth Dynol ond derbynnir y gall hyn fod yn angenrheidiol mewn rhai amgylchiadau prin. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai Swyddogion Awdurdodi ystyried cael cyngor gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd cyn awdurdodi hyn.

2.7 Beth mae angen i chi ei wneud cyn cynnal unrhyw wylidwriaeth...

Cyn i unrhyw un o swyddogion y Cyngor gynnal gwylidwriaeth ar unrhyw unigolyn neu unigolion, rhaid iddo asesu'n gyntaf a yw'r gweithgarwch yn dod o dan DRhPY.

Gallai'r cwestiynau canlynol eich helpu i benderfynu...

(a) A yw'r wylidwriaeth yn "gudd"?

Os yw'r ymchwiliad a'r gweithgareddau'n agored a heb eu cuddio rhag gwrthrychau'r ymchwiliad, yna mae'n debyg na fydd y wylidwriaeth yn gudd, ac ni fydd darpariaethau DRhPY yn gymwys. Ni fydd angen i chi gael awdurdodiad yn unol â'r disgrifiad ym Mhennod 3 o'r Polisi a Threfnau Corfforaethol hyn os nad yw'r wylidwriaeth arfaethedig yn gudd. (Gweler adran 2.2 i'ch helpu i benderfynu ar hyn.)

- (b) A yw'r wyliadwriaeth yn cael ei chynnal i ddibenion ymchwiliad neu weithrediad penodol?

Ystyriwch y camerâu teledu cylch cyfyng sy'n weladwy fel arfer i bawb sy'n cerdded o gwmpas un o swyddfeydd y Cyngor, er enghraifft. Defnyddir y camerâu i fonitro beth sy'n digwydd yn gyffredinol yn y swyddfa Cyngor honno ac ni fyddant yn cael eu defnyddio i ddibenion ymchwiliad neu weithrediad penodol oni bai fod y camerâu hynny'n cael eu defnyddio i dargedu unigolyn penodol adnabyddus ac i fonitro ei weithgareddau penodol.

- (c) A fydd y wyliadwriaeth yn datgelu gwybodaeth breifat?

Os yw'r wyliadwriaeth yn debygol o arwain at gael "gwybodaeth breifat" (gweler adran 2.4), am berson, gall DRhPY fod yn gymwys a bydd angen i chi gael awdurdodiad ffurfiol i gynnal y wyliadwriaeth honno.

- (d) A yw'r trosedd yr ymchwilir iddi yn un cosbadwy, boed yn ddiannod (gan ynadon) neu ar ddiad (gan Lys y Goron) drwy ddedfrydu i gyfnod hiraf o **6 mis o leiaf mewn carchar, neu a fyddai'n drosedd o dan adrannau 146, 147 neu 147A o Ddeddf Trwyddedu 2003 neu adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (gwerthu tybaco ac alcohol i blant dan oed)?** Os nad yw'r trosedd yn bodloni'r maen prawf hwn, sy'n cael ei alw'n 'Brawf Trosedd Difrifol', yna **nid oes** pwerau gan y Cyngor i guddwyllo. Siaradwch â swyddog cyfreithiol os nad ydych yn gwbl sicr.

Os ydych wedi ateb yn gadarnhaol i Gwestiynau (a) i (d), yna mae'n debygol y byddwch yn cynnal gwyliadwriaeth wedi'i rheoleiddio gan DRhPY ac felly dylech geisio awdurdodiad fel y nodir ym Mhennod 3. Os nad ydych yn sicr a fydd y wyliadwriaeth yn gudd neu'n dod o dan y Ddeddf, rhaid i chi ofyn am gyngor gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd cyn cynnal unrhyw wyliadwriaeth. Os nad ydych yn sicr, dilynwch y drefn awdurdodi sydd wedi'i disgrifio ym Mhennod 3 o'r Polisi a Threfnau Corfforaethol hyn.

PENNOD 3: TREFNAU AR GYFER AWDURDODI CUDDWYLIO

- 3.1** Os byddwch yn penderfynu, ar ôl ystyried y materion a eglurwyd ym Mhennod 2, y byddwch yn cynnal gweithgareddau cuddwyllo sy'n dod o dan DRhPY, rhaid i chi wneud cais am awdurdodiad yn unol â'r trefnau sydd wedi'u disgrifio yn y bennod hon. Er mwyn penderfynu a oes angen cael awdurdodiad, rhaid barnu ar sail yr amgylchiadau penodol ym mhob achos. Os nad ydych yn sicr, mae bob tro'n fwy diogel cael awdurdodiad. Fel arall, gofynnwch am gyngor cyn gynted â phosibl gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd.

Bellach mae Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 yn darparu, os yw awdurdod lleol am guddwyllo, cael data cyfathrebu neu ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol o dan DRhPY, y bydd angen iddo wedyn, ar ôl cael awdurdodiad gan Swyddog fel y nodir isod, gael gorchymyn sy'n cymeradwyo rhoi neu adnewyddu'r awdurdodiad gan y Llys Ynadon (Ynad Heddwch, sef un Ynad Cyflogedig neu Ynad Lleyg) cyn y gall yr awdurdodiad ddod i rym. Mae'r templed safonol ar gyfer gwneud y cais hwn yn Atodiad 3. Ar ôl cael cymeradwyaeth gan y Swyddog Awdurdodi, rhaid i'r awdurdod lleol gysylltu â'r tîm gweinyddol yn y Llys Ynadon dros y ffôn i drefnu gwrandawriad, a fydd yn wrandawriad preifat. Rhaid atodi copi o'r ffurflen gais wreiddiol o dan DRhPY wedi'i llofnodi'n briodol gan y Swyddog Awdurdodi. Mae rhagor o ganllawiau manwl ar gael yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref (Hydref 2012) ar dudalennau DRhPY y Swyddfa Gartref. Mae gwybodaeth fanwl bellach yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref i awdurdodau Cymru a Lloegr ar brosesau cymeradwyo barnwrol ar gyfer DRhPY ac mae'r trothwy trosedd ar gyfer cuddwyllo penodol (Hydref 2012) ar gael ar dudalennau DRhPY y Swyddfa Gartref.

Yn dilyn y newidiadau yn 2012 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gysylltu â'r Ynadon, yr amser dod i rym yw'r amser y mae'r awdurdodiad yn cael ei gymeradwyo gan yr Ynad, nid yr amser y mae'r Swyddog Awdurdodi yn rhoi awdurdodiad.

Mater i'r Awdurdod Lleol yw penderfynu pwy a fydd yn dod gerbron yr Ynadon; mae canllawiau'r Swyddfa Gartref yn nodi mai'r disgwyliad yw y bydd yn briodol i'r Swyddog Ymchwilio fod yn bresennol yn hytrach na Chyfreithiwr gan mai ef fydd yn gwybod y mwyaf am y mater sy'n destun i'r ymchwiliad, ac er mwyn lleihau costau cyfreithiol. Os yw'r cais yn ymwneud â Data Cyfathrebu, caiff y PCS fod yn bresennol, yn amodol ar unrhyw drefniadau sydd wedi'u gwneud â'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN).

Ym mhob gweithrediad cudd, rhaid ystyried y goblygiadau o ran iechyd a diogelwch a chynnal asesiad risg e.e. i ystyried a oes angen i ddau Swyddog Ymchwilio fod yn bresennol yr un pryd mewn rhai amgylchiadau neu a oes angen cymryd camau diogelwch cyn cychwyn gweithrediad cudd. Hefyd, mae'n bosibl y bydd angen cadarnhau sefyllfa'r Cyngor o ran yswiriant cyn ymgymryd â'r gweithrediad.

- 3.2** Caiff y swyddogion canlynol weithredu fel swyddogion awdurdodi i ddibenion DRhPY.

Y Prif Weithredwr yng nghyswllt pobl ifanc/gwybodaeth gyfrinachol yn unig (neu, os yw'n absennol, y person sy'n gweithredu fel y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig)

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau

Swyddog a.151

Swyddog Monitro/Uwch Swyddog Cyfrifol dim ond pan nad oes Swyddog Awdurdodi arall ar gael i roi awdurdodiad.

Gall y Prif Weithredwr ddiwygio'r rhestr hon ar unrhyw adeg ac yn unol â Gorchymyn DRhPY (Gwyliadwriaeth dan Gyfarwyddyd a Ffynonellau Cuddwybodaeth Dynol) 2010 OS 2010/52. Yn y lle cyntaf, dylai Swyddog Ymchwilio geisio cael awdurdodiad gan y Swyddog Awdurdodi ar gyfer ei adran. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn ymarferol, gellir gofyn am awdurdodiad gan unrhyw Swyddog Awdurdodi sydd wedi'i restru uchod.

- 3.3.** Ni ddylai Swyddogion Awdurdodi fod yn gyfrifol am awdurdodi eu gweithgareddau eu hunain. Fodd bynnag, derbynnir na fydd modd osgoi hyn weithiau os oes angen gweithredu ar frys. Er hynny, gorau po leiaf o'r achosion hyn a geir. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid dwyn awdurdodiad o'r math hwn at sylw Arolygydd Swyddfa Comisiynydd Pwerau Ymchwilio a bydd y Cofnod Canolog yn dangos y gweithgaredd hwn fel y gellir cyfeirio ato'n rhwydd.
- 3.4** Dim ond y ffurflenni sydd ar wefan y Swyddfa Gartref (tudalen DRhPY) y gellir eu defnyddio i awdurdodi o dan y polisi hwn. Ni chaiff Swyddogion Awdurdodi roi awdurdodiad ar gyfer cuddwyllo oni bai ei fod yn cael ei ystyried yn angenrheidiol yn unol â'r pwrpas perthnasol o atal neu ddarganfod troseddau neu atal anhrefn a hefyd bod graddau a natur y wylidwriaeth yn gymesur â'r nod a geisir. Bydd angen i Swyddogion Awdurdodi gael eu bodloni bod modd cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth â bywyd preifat unigolyn a bod yr ymyrraeth yn hanfodol i lwyddiant yr ymchwiliad. Os gellir symud ymlaen â'r ymchwiliad heb orfod troi at dechnegau cuddwyllo, dylid osgoi defnyddio DRhPY. Bydd o gymorth os bydd ceiswyr awdurdodiad yn egluro pa fesurau agored sydd wedi'u defnyddio neu eu diystyru, cyn troi at dechnegau cudd. Dylai Swyddogion Awdurdodi wrthod ceisiadau sydd wedi'u gwneud cyn pryd o dan yr amgylchiadau hyn. Er mwyn sicrhau bod digon o wybodaeth gan Swyddogion Awdurdodi i wneud penderfyniadau synhwyrol a gwybodus, mae'n bwysig bod swyddogion sy'n gwneud cais am awdurdodiad yn cyflwyno ffurflen gais fanwl i'r Swyddog Awdurdodi.
- 3.5** Lle bernir bod angen ymgymryd â gwyliadwriaeth, rhaid ei hawdurdodi'n unol â'r darpariaethau yn y Bennod hon cyn ei chyflawni. Drwy gael awdurdodiad priodol, dylai'r Cyngor fod mewn sefyllfa gryfach os caiff ei herio ar y sail ei fod wedi torri deddfwriaeth hawliau dynol. Os caiff y gweithgaredd ei awdurdodi a'i gyflawni'n unol â hynny, bydd y gweithgaredd yn gyfreithlon i'r holl ddibenion (paragraff 27 DRhPY).
- 3.6** Awdurdodi Gwyliadwriaeth dan Gyfarwyddyd

Ni fydd Swyddog Awdurdodi yn rhoi awdurdodiad i swyddog i gynnal gwyliadwriaeth dan gyfarwyddyd oni bai ei fod *yn credu* bod yr awdurdodiad **yn angenrheidiol** ar y sail berthnasol a hefyd fod y wylidwriaeth **yn gymesur** â'r nod a geisir. Mae angen i Swyddogion Awdurdodi gofio bod gwyliadwriaeth dan gyfarwyddyd yn ymyrraeth â hawliau rhywun o dan Erthygl 8 ac mai'r unig gyfiawnhad drosti yw ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Os nad yw wedi'i fodloni ar hyn, rhaid i'r Swyddog Awdurdodi wrthod rhoi awdurdodiad.

Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi beidio ag ychwanegu at y rhannau o gais sydd wedi'u llenwi gan y swyddog ymchwilio neu'r ceisydd, gan fod rhaid i'r cynnwys fod wedi'i ysgrifennu gan y ceisydd yn unig. Rhaid i'r ceisydd beidio â llenwi'r rhannau o'r cais sydd i'w llenwi gan y Swyddog Awdurdodi o dan unrhyw amgylchiadau. Mae rôl y ceisydd wrth wneud cais yn dod i ben wrth gyrraedd y rhan honno o'r ffurflen. Fodd bynnag, os bydd y Swyddog

Awdurdodi yn trafod materion ychwanegol â'r ceisydd, bydd yn arfer da iddo sôn am y trafodaethau hyn yn ei ddatganiad awdurdodi.

Mae Cod Ymarfer y Swyddfa Gartref yn cyfeirio'n benodol at y canlynol mewn cysylltiad ag angenrheidrwydd a chymesuredd:

“Os pennir bod y gweithgarwch yn angenrheidiol ar sail neu seiliau statudol, rhaid i'r person sy'n rhoi'r awdurdodiad neu sy'n cyhoeddi'r warant hefyd gredu eu bod yn gymesur â beth a geisir ei gyflawni. Mae hyn yn golygu cydbwysio dirifoldeb yr ymyrraeth i breifatrwydd yr unigolyn sy'n destun i'r gweithrediad (neu unrhyw unigolyn arall y gellid eu heffeithio) yn erbyn yr angen am y gweithgarwch o safbwynt ymchwiliol a gweithredol.

Ni fydd yr awdurdodiad neu'r warant yn gymesur os yw'n ormodol o safbwynt amgylchiadau cyffredinol yr achos. Dylai pob gweithrediad a awdurdodir ddod â budd disgwylledig i'r ymchwiliad ac ni ddylai fod yn anghymesur nac yn fympwyol. Ni fydd y ffaith bod trosedd a amheuir yn ddifrifol yn ddigon yn ei hun i beri'r camau gweithredu arfaethedig fod yn gymesur. Yn yr un modd, gallai trosedd fod yn un mor fân fel y byddai defnyddio unrhyw dechneg cuddwyllo yn anghymesur. Ni ddylid ystyried unrhyw weithgarwch yn gymesur os gellir cael gafael ar yr wybodaeth a geisir yn rhesymol drwy ddulliau llai ymwithiol.”

Felly, bydd y Swyddog Awdurdodi yn cynnal ymarfer pwysu a mesur a bydd angen dangos hyn ar bapur, er ei bod yn ddigon posibl bod y Swyddog Awdurdodi wedi cynnal yr ymarfer hwn yn ei feddwl. Caiff nodi hefyd pa ystyriaethau sydd bwysicaf yn ei farn ef.

Dylai'r Swyddog Awdurdodi ystyried hefyd y risg o ymyrraeth gyfochrog sydd yn y gweithrediad (ymyrryd â phreifatrwydd pobl nad ydynt yn wrthrych i'r ymchwiliad). Gallai hyn fod yn berthnasol wrth ystyried a yw'r gweithrediad yn gymesur neu beidio. Os nodwyd y bydd ymyrraeth gyfochrog, rhaid i'r ceisydd ddangos pam y mae cyfiawnhad dros yr ymyrraeth.

Nid oes unrhyw amgylchiadau lle gellir ôl-ddyddio awdurdodiad am guddwyllo ar ôl ei gychwyn. Os dechreuir cuddwyllo heb gael awdurdodiad neu os cynhelir cuddwyllo y tu allan i gwmpas yr awdurdodiad, ni fydd amddiffyniad ar gael o dan DRhPY a gall hyn arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn y swyddogion sy'n gysylltiedig.

Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi bennu dyddiad adolygu i ailystyried yr awdurdodiad, sicrhau bod yr holl ffurflenni wedi'u llenwi'n foddhaol a bod y gofynion yn 3.8 wedi'u bodloni. Rhaid cyflwyno pob ffurflen i adran y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd o fewn 3 diwrnod gwaith ar ôl rhoi'r awdurdodiad. Cyfrifoldeb y Swyddog Awdurdodi yw anfon y ffurflen awdurdodi ac ystyried y dull mwyaf priodol o'i throsglwyddo. Yn achos gweithrediadau uchel eu risg, lle y mae diogelwch unigolyn yn gysylltiedig, mae'n bosibl mai trosglwyddo drwy law fydd yr unig ddull diogel a synhwyrol.

Yn olaf, **rhaid i'r Swyddog Awdurdodi ddynodi Rhif Cyfeirio Unigryw** ar gyfer y cais fel a ganlyn:-

Blwyddyn/Adran/Rhif y Cais – Mae'r Rhif Cyfeirio Unigryw ar gael gan Bennaeth adran y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd.

3.7 Cyfarpar

Dim ond ar ôl cael yr awdurdodiad angenrheidiol gan y Swyddog Awdurdodi y bydd cyfarpar gwylidwriaeth yn cael ei osod. Rhaid cofnodi'r math o gyfarpar a ddefnyddir ar y ffurflen gais a hefyd yn natganiad y Swyddog Awdurdodi. Bydd angen i'r rheini sydd yn ymchwilio i'r mater fod yn glir ynghylch pa gyfarpar y maent wedi cael eu hawdurdodi i'w ddefnyddio.

Dim ond ar ôl cael caniatâd ysgrifenedig penodol gan y tenant neu berchen-feddiannydd y gellir gosod cyfarpar gwylidwriaeth mewn mangre breswyl sydd wedi'i meddiannu.

Mae rhestr o gyfarpar gwylidwriaeth y Cyngor yn cael ei chadw gan Swyddogion Awdurdodi'r priod adrannau. Os prynir cyfarpar gwylidwriaeth ychwanegol, rhaid hysbysu'r Swyddogion Awdurdodi perthnasol er mwyn diweddarau'r rhestr.

Rhaid cofnodi unrhyw ddefnydd o'r cyfarpar hwn yn y rhestr gan gyfeirio at y Rhif Cyfeirio Unigryw yn unig er mwyn diogelwch a chyfrinachedd.

Hefyd, rhaid i unrhyw gyfarpar gwylidwriaeth gael ei gadw'n ddiogel ar safle'r Cyngor.

3.8 Tystiolaeth

Bydd unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth a recordir yn cael ei storio'n ddiogel a bydd y dystiolaeth hon ar gael neu'n cael ei datgelu i'r Swyddogion hynny y mae angen ei datgelu iddynt, fel y Swyddogion Awdurdodi, Swyddogion Ymchwilio a Swyddogion Cyfreithiol hynny sy'n gysylltiedig â'r broses neu erlyniad. Bydd unrhyw geisiadau am ddatgelu dystiolaeth i asiantaethau trydydd parti yn cael eu trafod drwy'r Swyddogion Awdurdodi, a all ofyn am gyngor gan adran y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd os bydd angen. Yn gyffredinol, ni chaniateir ei datgelu heblaw i asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith fel DWP neu'r heddlu, i gynghorwyr cyfreithiol Gwrthrych yr ymchwiliad neu i'r Gwrthrych ei hun. Rhoddir ystyriaeth bob amser i'r angen i olygu unrhyw wybodaeth am drydydd parti, boed yn ysgrifenedig, yn weledol neu'n glywedol, a hefyd i unrhyw bosibilrwydd o niweidio achos troseddol sy'n cael ei ddwyn gan y Cyngor neu asiantaeth arall sy'n gorfodi'r gyfraith.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cyngor yn sicrhau bod data personol wedi'u storio'n ddiogel ac nad ydynt yn cael eu cadw'n hwy nag sydd angen. Hefyd gweler Pennod 9 o'r Cod Ymarfer ar Guddwylio ac Ymyrryd ag Eiddo, Awst 2018. Yn y pen draw, y Swyddog Awdurdodi sydd yn berchen ar y cynnyrch a gafwyd, ac sy'n gyfrifol felly am ddiogelu'r wybodaeth.

Tapiau a storio

Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd:

Trafod Tystiolaeth wedi'i Recordio a Gafwyd drwy Guddwylio

Bydd y recordiad gwreiddiol yn cael ei gopïo a'i selio wedyn mewn bag dystiolaeth a'i rifo. Hwn fydd y 'Meistrgopi' a chaiff ei drosglwyddo i'r Pennaeth Gwasanaeth Cynorthwyol neu'r Rheolwr Adain a fydd yn storio'r 'Meistrgopi' yn ddiogel.

Bydd y copi o'r disg/tâp yn 'Gopi Gweithio' ac, os caiff ei golli neu ei ddifrodi, gwneir cais i Clerc yr Ynadon am ganiatâd i ddyblygu'r 'Meistrgopi'. Bydd y Meistrgopi'n cael ei ailseilio o flaen Clerc yr Ynadon.

Dylid cofnodi'r Meistrgopi yn Llyfr Tystiolaeth y Swyddfa gan gynnwys dyddiad ei drosglwyddo i'r uwch swyddog a'r rhif adnabod ar y bag tystiolaeth.

Ni ddylid cymryd y Meistrgopi o'r man storio heblaw ar gyfer ei ddangos fel tystiolaeth mewn achos llys neu fel y disgrifiwyd uchod.

Os ceir tystiolaeth bod trosedd wedi'i gyflawni a bod yr Awdurdod yn penderfynu dwyn achos llys, bydd y terfynau amser canlynol yn gymwys ar gyfer cadw'r recordiad:

Ar ôl rhoi collfarn – bydd y recordiad yn cael ei gadw tra bydd yr achos yn parhau ac am ddwy flynedd ar ôl hynny.

Os na roddir collfarn, caiff y recordiad ei ddinistrio o fewn 28 diwrnod.

Os bydd yr Awdurdod yn penderfynu cynnig rhybuddiad ffurfiol yn unol â Chanllawiau'r Swyddfa Gartref, bydd y recordiad yn cael ei gadw am ddwy flynedd o'r dyddiad y mae'r rhybuddiad ffurfiol yn cael ei dderbyn.

Os penderfynir na fydd camau ffurfiol yn cael eu cymryd, bydd y recordiad yn cael ei ddinistrio'n syth. Yn yr un modd, wedi i'r awdurdodiad o dan DRhPY ddod i ben, os na ddangoswyd bod trosedd wedi'i gyflawni, bydd y recordiad yn cael ei ddinistrio.

Bydd y recordiad yn cael ei ddinistrio drwy ddryllio'r disg neu ei dorri'n ddarnau a gwneir cofnod yn Llyfr Tystiolaeth y Swyddfa o'r dyddiad dinistrio ac enw'r swyddog a oedd wedi'i ddinistrio.

3.9 Awdurdodi Ffynonellau Cuddwybodaeth Dynol

Pan fydd Swyddog Awdurdodi yn ystyried rhoi awdurdod i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, rhaid iddo ystyried y seiliau sydd wedi'u nodi mewn perthynas â gwyliadwriaeth dan gyfarwyddyd (3.6 uchod) a hefyd sicrhau bod trefniadau wedi'u gwneud i ddelio â'r materion canlynol:-

- Bod cyflogai i'r Cyngor yn gyfrifol o ddydd i ddydd am ddelio â'r ffynhonnell ac am ddiogelwch a lles y ffynhonnell (y trafodwr). Rhaid cael uwch swyddog hefyd a fydd yn arolygu'r defnydd o'r ffynhonnell, gan roi sylw penodol i ddiogelwch y ffynhonnell (y Rheolwr). Rhaid cynnal asesiad risg llawn a fydd yn cael ei adolygu drwy gydol y cyfnod y mae'r ffynhonnell wedi'i recriwtio ar ei gyfer.
- Bod swyddog yn gyfrifol am gadw cofnod o'r defnydd a wneir o'r ffynhonnell.
- Ystyried unrhyw effaith niweidiol ar ymddiriedaeth y Gymuned a allai godi o ganlyniad i'r defnydd, ymddygiad neu'r wybodaeth a geisir.
- Na fydd cofnodion sy'n dangos pwy yw'r ffynhonnell yn cael eu darparu i eraill heblaw ar sail yr angen i wybod.

Yn ogystal â hyn, mae Rheoliadau DRhPY (Cofnodion Ffynonellau) 2000 (OS 2000/2725) yn darparu bod rhaid cadw cofnod mewn cysylltiad â Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol:

- Enw'r ffynhonnell
- Yr enw sy'n cael ei ddefnyddio gan y ffynhonnell, os yw'n hysbys
- Unrhyw awdurdod ymchwilio perthnasol heblaw'r awdurdod sy'n cadw'r cofnodion
- Y dull o gyfeirio at y ffynhonnell ym mhob awdurdod ymchwilio perthnasol
- Unrhyw wybodaeth bwysig arall sy'n gysylltiedig â diogelwch a lles y ffynhonnell
- Unrhyw gadarnhad gan berson sy'n rhoi neu'n adnewyddu awdurdodiad i gynnal neu ddefnyddio ffynhonnell fod gwybodaeth berthnasol wedi'i hystyried a bod unrhyw risgiau penodol i ddiogelwch a lles y ffynhonnell wedi'u hegluro'n briodol i'r ffynhonnell a'i bod yn eu deall
- Dyddiad recriwtio'r ffynhonnell, ac amgylchiadau'r recriwtio
- Enwau'r personau a fydd yn gweithredu fel trafodwr a rheolwr a'r person sy'n gyfrifol am gadw cofnodion o'r defnydd o'r ffynhonnell
- Y cyfnodau pryd y mae'r personau hynny wedi cyflawni'r cyfrifoldebau hynny
- Y tasgau a roddwyd i'r ffynhonnell a'r galwadau a oedd arni o ran ei gweithgareddau fel ffynhonnell
- Yr holl gysylltiadau a chyfathrebiadau rhwng y ffynhonnell a thrafodwr y Cyngor
- Y wybodaeth a gafodd y Cyngor drwy gynnal neu ddefnyddio'r ffynhonnell
- Unrhyw ledaenu ar wybodaeth a gafwyd yn y modd hwn gan yr awdurdod
- Unrhyw daliad, budd neu wobr a wnaed neu a ddarparwyd i'r ffynhonnell (heblaw lle mae'r ffynhonnell yn gyflogai i'r Cyngor sy'n gweithredu fel cudd-weithredwr).

Mae Cod Ymarfer y Swyddfa Gartref ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Dynol Awst 2011 yn darparu, mewn perthynas â Ffynonellau Cuddwybodaeth Dynol, fod cofnodion ychwanegol i'w cadw am ddefnyddio ffynonellau, ac mae Swyddogion yn cael eu hannog i gyfeirio at y Cod hwn wrth ystyried defnyddio ffynhonnell a thrwy gydol y broses.

Yng nghyswllt Ffynonellau Cuddwybodaeth Dynol sy'n bobl ifanc neu sydd â nam meddyliol, yr unig un a all awdurdodi eu defnyddio yw'r Prif Weithredwr neu, os yw'n absennol, Cyfarwyddwr Corfforaethol.

3.10 Gofalu bod eich awdurdodiadau'n gywir

Arfer da yw sicrhau bob amser fod pob awdurdodiad yn cydymffurfio â'r pwyntiau canlynol:-

- (a) bod pob awdurdodiad a chymeradwyaeth i awdurdodiad wedi'i gofnodi mewn ysgrifen yn fformat y ffurflenni sydd ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref.
- (b) bod pob awdurdodiad yn cael ei ystyried ar wahân – meddyliwch am amgylchiadau'r achos penodol. Mewn perthynas â Gwyliadwriaeth dan Gyfarwyddyd, defnyddiwch y Rhestr Wirio (yn Atodiad 1) wrth fynd drwy'r ffurflen, os bydd angen. Yn gyffredinol, dylai'r Swyddog Ymchwilio gymryd o leiaf un awr i llenwi'r ffurflen gais, oherwydd y manylder sydd ei angen yn y rhan fwyaf o achosion.
- (c) bod un ffurflen yn cael ei llenwi ar gyfer pob math o awdurdodiad. Gwahaniaethwch yn glir rhwng gwyliadwriaeth dan gyfarwyddyd a ffynonellau cuddwybodaeth dynol ac ystyriwch a yw unrhyw ymyrraeth gyfochrog neu ymyrraeth â phreifatrwydd pobl heblaw gwrthrych y wylidwriaeth yn debygol o godi. Bydd angen egluro yn y ffurflenni cais beth yw'r cyfiawnhad dros ymyrraeth gyfochrog ym mhob achos penodol.

- (d) cynnwys asesiad o'r risg o ymyrraeth gyfochrog neu ymyrraeth â phreifatrwydd. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi ystyried hyn, yn enwedig wrth ystyried a yw'r wylriadwriaeth yn gymesur â'r nod arfaethedig.
- (e) bod rhaid i'r rheini sy'n cynnal gwyliadwriaeth roi gwybod i'r Swyddog Awdurdodi os bydd y gweithrediad neu ymchwiliad yn ymyrryd yn annisgwyl â phreifatrwydd unigolion eraill nad ydynt yn wrthrychau gwreiddiol i'r ymchwiliad neu sydd heb eu cynnwys yn yr awdurdodiad. Ni ellir gwneud cais ôl-weithredol a dylai Swyddogion Ymchwilio ystyried yr angen am wneud cais o'r newydd.
- (f) adolygu awdurdodiadau'n rheolaidd a chofnodi'r dyddiadau dod i ben ac adnewyddu mewn dyddiadur (gweler Pennod 4).

3.11 Gwybodaeth Gyfrinachol

Dylech fod yn ofalus iawn os ydych yn debygol o gael gwybodaeth gyfrinachol o ganlyniad i weithgaredd gwyliadwriaeth. Nid yw DRhPY yn darparu unrhyw amddiffyniad arbennig ar gyfer deunydd cyfrinachol ond bydd gwybodaeth o'r fath yn cynnwys materion sy'n dod o dan fraint broffesiynol gyfreithiol, gwybodaeth bersonol gyfrinachol neu wybodaeth newyddiadurol gyfrinachol. Gwybodaeth bersonol gyfrinachol yw gwybodaeth sy'n cael ei dal yn gyfrinachol sy'n ymwneud â chwmsela corfforol, meddyliol neu ysbrydol i unigolyn (boed yn fyw neu'n farw) y gellir ei adnabod ar ei sail.

Cofiwch fod gwybodaeth o'r fath yn sensitif iawn ac y bydd mesurau diogelu ychwanegol ar ei chyfer.

Os yw unrhyw gais am awdurdodiad yn debygol o arwain at gael deunydd cyfrinachol, fe ddylai gynnwys asesiad o ba mor debygol yw hi y bydd deunydd cyfrinachol yn dod i law. Dylid bod yn neilltuoel o ofalus os yw gwrthrych yr ymchwiliad yn debygol o fod â rhan mewn trafod gwybodaeth gyfrinachol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol a symbylol iawn y dylid ystyried ceisiadau o'r fath, ar ôl rhoi sylw i'r holl ystyriaethau o ran cymesuredd sy'n codi. Dylai swyddogion ofyn am gyngor bob amser gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd mewn achosion o'r fath.

Mae'n bwysig nodi mai dim ond y Prif Weithredwr (neu, os yw'n absennol, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaeth Cyflogedig) sy'n gallu gweithredu fel Swyddog Awdurdodi os yw gweithrediad yn debygol o arwain at gael gwybodaeth gyfrinachol.

3.12 Cofrestr Ganolog Cuddwyllo

Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yn cadw cofrestr ganolog o'r holl geisiadau ac awdurdodiadau gan gynnwys unrhyw gais sydd wedi'i wrthod gan Swyddog Awdurdodi. Bydd y cofnodion yn y Gofrestr Ganolog hon yn cael eu cadw am dair blynedd o ddyddiad yr awdurdodiad yn unol â Chod y Swyddfa Gartref. Trefnir i'r cofnod hwn fod ar gael i'r Comisiynydd neu Arolygydd perthnasol ar ei gais. Yn unol â'r Cod Ymarfer, bydd y cofnod canolog hefyd yn cynnwys copi o'r cais a'r awdurdodiad cyflawn. Rhaid cynnwys gwybodaeth hefyd am unrhyw adnewyddu, adolygu neu ddileu sy'n digwydd wedyn.

Rhaid hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd drwy'r e-bost ymlaen llaw bod ffurflen DRhPY i gael ei hanfon i'r Cofnod Canolog. Rhaid anfon pob ffurflen DRhPY i adran y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd o fewn 3 diwrnod gwaith ar ôl rhoi'r awdurdodiad. Rhaid i adran y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd gydnabod derbyn y

ffurflen DRhPY drwy'r e-bost. Bydd y Cofnod Canolog yn cael ei ddiweddarau ar ôl cael y wybodaeth sydd ar y ffurflen.

Rhaid i'r anfonydd ystyried beth fydd y dull mwyaf diogel o drosglwyddo'r ffurflen DRhPY yn ôl y math o wylidwriaeth a'r risg, e.e. ar gyfer gweithrediad cuddwylio mawr ar y cyd ag asiantaeth gorfodi arall, byddai'n briodol trosglwyddo'r ffurflen drwy law. Rhaid cadw'r dogfennau'n ddiogel a'u marcio â'r geiriau 'preifat a chyfrinachol'.

Mewn cysylltiad â gweithrediadau ar y cyd ag asiantaethau eraill, bydd un parti'n arwain ar gael awdurdodiad, ond bydd angen i'r holl bartïon weld manylion yr awdurdodiad (R v Sutherland). Mae angen i'r rheini sy'n cynnal ymchwiliad fod yn ymwybodol o gyfyngiadau'r awdurdodiad.

3.13 Trefniadau Arolygu Mewnol

Y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd fydd yn gyfrifol am fonitro'r awdurdodiadau, adnewyddiadau, adolygiadau a dileadau. Bydd yn eu monitro drwy ddewis ffurflenni ar hap bob chwarter, gan ddefnyddio'r Rhestr Wirio Sicrhau Ansawdd. Yn ogystal â hyn, bydd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yn ystyried a yw'r awdurdodiad yn gyfreithlon, yn enwedig y materion sy'n ymwneud ag angenrheidrwydd a chymesuredd, ar ôl cael pob ffurflen, tra bydd y wybodaeth ar gyfer y cofnod mewnol yn cael ei chofnodi.

Adroddir ar ganlyniad y monitro ar ganol y flwyddyn mewn adroddiad byr a bydd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yn llunio Adroddiad Adolygu Blynyddol mwy manwl. Bydd y Swyddog Monitro/Uwch Swyddog Cyfrifol DRhPY yn adrodd ar yr Adroddiad Adolygu Blynyddol i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor.

PENNOD 4: HYD, ADOLYGU A DILEU AWDURDODIADAU

- 4.1 Nid penderfyniad i'w wneud yn ddifeddwl yw awdurdodi gwyliadwriaeth dan gyfarwyddyd neu'r defnydd o Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol – wedi'r cwbl, mae gwyliadwriaeth yn ymyrryd â phreifatrwydd pobl. Oherwydd hynny, rhaid adolygu awdurdodiadau'n rheolaidd i asesu'r angen i barhau â gwyliadwriaeth o'r fath. Dylid cadw a chofnodi canlyniadau'r adolygiadau'n ofalus.
- 4.2 Mae'n bwysig nodi bod terfynau amser ar unrhyw awdurdodiadau a roddir o dan DRhPY. Bydd hyd yr awdurdodiad yn dibynnu ar y math o weithgaredd gwyliadwriaeth sydd dan sylw:
- (a) Gwyliadwriaeth dan Gyfarwyddyd - ym mhob achos, dylid rhoi 3 mis o'r dyddiad awdurdodi neu o'r dyddiad adnewyddu diwethaf. **Ers cyflwyno'r newidiadau yn 2012 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gysylltu â'r Ynadon, yr amser dod i rym yw'r amser y mae'r awdurdodiad yn cael ei gymeradwyo gan yr Ynadon, nid yr amser y mae'r Swyddog Awdurdodi yn rhoi awdurdodiad.** Nid yw awdurdodiadau Gwyliadwriaeth dan Gyfarwyddyd yn dod i ben. O dan a.45 mae'n ofynnol bod y person sydd wedi rhoi neu adnewyddu awdurdodiad yn ei ddileu os yw wedi'i fodloni nad yw'r gofynion perthnasol yn cael eu bodloni bellach. Hyd yn oed os ydych yn credu y bydd angen yr awdurdodiad am y cyfnod statudol o 3 mis, bydd angen dileu'r awdurdodiad gan na fydd yn dod i ben ohono'i hun ar ddiwedd y cyfnod o 3 mis. Mae'r Comisiynwyr Arwylio yn glir iawn ar y pwynt hwn. Felly rhowch bob awdurdodiad am gyfnod o 3 mis, ac wedyn pennu dyddiad adolygu ar gyfer dileu neu adnewyddu'r awdurdodiad o fewn y terfyn amser o 3 mis. Os ceir y dystiolaeth cyn y dyddiad adnewyddu ac nid oes angen rhagor o wylidwriaeth o dan gyfarwyddyd, rhaid dileu'r awdurdodiad.
- (b) Ffynonellau Cuddwybodaeth Dynol - 12 mis o ddyddiad rhoi'r awdurdodiad, neu'r dyddiad adnewyddu. Mae awdurdodiadau llafar brys yn para 72 awr ar y dechrau. Yn achos unigolyn sy'n agored i niwed, e.e. person ifanc, am uchafswm o bedwar mis o adeg dyfarnu neu adnewyddu a dylid adolygu awdurdodiad bob mis o leiaf.
- 4.3 Rhaid dileu pob awdurdodiad un ai pan nad yw bellach yn angenrheidiol neu pan nad yw'n gymesur.

PENNOD 5 HAWL I WELD DATA CYFATHREBU ac YMCHWILIO I WYBODAETH ELECTRONIG WARCHODEDIG

5.1 Hawl i Weld Data Cyfathrebu

Mae Awdurdodau Lleol yn gallu cael gwybodaeth gyfyngedig am fanylion tanysgrifwyr a data gwasanaeth. NID yw DRhPY yn caniatáu i Awdurdodau Lleol ryng-gipio, recordio neu fonitro data cyfathrebu fel arall. **Yr unig sail i ganiatáu i Awdurdod Lleol weld data cyfathrebu yw er mwyn atal neu ddarganfod trosedd neu i atal anhrefn.**

Mae 'data cyfathrebu' yn golygu 'pwyl' sy'n cyfathrebu, 'pa bryd' ac 'ym mhle', ond nid y cynnwys – yr hyn sydd wedi'i ddweud neu ei ysgrifennu. Mae'n cynnwys y modd a'r dull y mae person neu beiriant yn cyfathrebu â pherson neu beiriant arall. Nid yw'n cynnwys beth roeddent wedi'i ddweud na pha ddata y maent yn eu trosglwyddo mewn neges, gan gynnwys testun, sain a fideo.

Rhaid rhoi prawf llym am angenrheidrwydd cyn ystyried gwneud cais am weld data cyfathrebu. **Rhaid i bob cais fod yn gyfreithlon, yn angenrheidiol** (mae popeth arall wedi methu) **ac yn gymesur**. Mae 'cymesur' yn cynnwys 'ymyrraeth gyfochrog', gan ei bod yn bosibl y bydd y data a ddarperir yn ymyrryd â phreifatrwydd trydydd parti, a dylid gwneud hynny i'r graddau lleiaf posibl.

Yr Uwch-swyddog Cyfrifol, sef y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd, sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gael data cyfathrebu.

Rhaid i'r Person Dynodedig, sy'n awdurdodi'r cais am ddata cyfathrebu, fod yn Rheolwr Gwasanaeth o leiaf.

Rhaid i Bwynt Cyswllt Sengl (PCS) gael ei achredu gan y Swyddfa Gartref wedi iddo ddilyn hyfforddiant achrededig a dangos ei fod yn gymwys drwy sefyll arholiad. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn defnyddio'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol ar gyfer yr agwedd hon ar ymchwilio.

Mae Darparwyr Gwasanaeth Cyfathrebu yn cael gweld cronfa ddata berthnasol y Swyddfa Gartref o PCSau achrededig i sicrhau bod unrhyw Hysbysiad i ddarparu data yn ddilys.

Trefn ar gyfer cael data telathrebu

Rhaid cyflwyno ceisiadau i gael data telathrebu i Bwynt Cyswllt Sengl (PCS) sydd wedi'i achredu gan y Swyddfa Gartref. Mae'r Cyngor yn defnyddio gwasanaethau'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN) i'r diben hwn.

Gall swyddogion wneud cais drwy fynd ar wefan NAFN, felly rhaid iddynt gael eu cofrestru'n briodol ar y wefan.

Mae cyfarwyddiadau llawn ar gyfer cyflwyno cais yn y Llawlyfr Canllawiau ar wefan NAFN. Yn ogystal â hyn, mae NAFN wedi llunio "RIPA Toolkit" ar gyfer defnyddwyr cofrestredig.

Yn gyntaf, bydd y cais yn cael ei fetio gan NAFN am gysondeb, ac yn cael ei anfon wedyn gan NAFN at Bersonau Dynodedig y Cyngor er mwyn cymeradwyo'r cais ar-lein.

Personau Dynodedig y Cyngor yw'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd a'r Rheolwr Safonau Masnach. Yn y dyfodol, gellir ymestyn (neu gyfyngu) y rolau hyn i Gyfarwyddwyr Corfforaethol, y Prif Weithredwr, a Swyddog Monitro'r Cyngor. Bydd NAFN yn hysbysu'r Personau Dynodedig ar y cyd pan fydd y cais yn barod i'w adolygu gan y Personau Dynodedig.

Wedyn bydd y Person Dynodedig perthnasol yn cael mynediad i'r parth cyfyngedig ar wefan NAFN drwy roi cod arbennig er mwyn adolygu a chymeradwyo'r cais. Wrth gymeradwyo'r cais, rhaid i'r Person Dynodedig gael ei fodloni bod cael y wybodaeth yn angenrheidiol ac yn gymesur.

Bydd y Person Dynodedig yn cofnodi bod cais wedi'i gymeradwyo drwy lenwi'r ddogfen ar-lein a'i hailgyflwyno drwy ddilyn y camau sydd wedi'u disgrifio ar wefan NAFN. Bydd NAFN yn cadw'r dogfennau ar-lein hyn. Mae NAFN yn cael ei arolygu a'i archwilio gan IOCCO.

Wrth gyflwyno cais ar-lein, rhaid i'r swyddog roi gwybod hefyd i'w Reolwr Tîm A HEFYD i'r Person Dynodedig (os yw'n wahanol), er mwyn i'r Cyfarwyddwr fod yn ymwybodol bod cais wedi'i wneud i NAFN.

Cael a Datgelu Data Cyfathrebu

Mae rhagor o wybodaeth i swyddogion yn y ddogfen "*Guidance for Applicants & Designated Persons Considering Necessity & Proportionality*", a gynhyrchwyd gan y Grŵp Cyfathrebu Data, sydd ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref.

Er bod y Cyngor yn tanysgrifio i NAFN, mae'n bosibl y bydd swyddogion am ymgyfarwyddo â Chod Ymarfer Caffael a Datgelu Data Cyfathrebu a Chod Ymarfer Cadw Data Cyfathrebu y Swyddfa Gartref (Mawrth 2015).

<http://www.homeoffice.gov.uk/publications/counter-terrorism/ripa-forms/code-of-practice-acquisition?view=Binary>

5.2 Amgryptio – ymchwilio i wybodaeth electronig warchoddedig.

Mae'r pŵer o dan a.49(1) o DRhPY yn disgrifio'r modd y mae gwybodaeth warchoddedig wedi dod i feddiant unrhyw berson o fewn awdurdod cyhoeddus. Mae hyn yn debygol o gynnwys, yng nghyswllt y Cyngor, gwybodaeth warchoddedig a gafwyd o dan awdurdodiad o dan Ran 2 o DRhPY 2000, o dan Bennod 1, Rhan 2 o DRhPY 2000 (data cyfathrebu), neu a gafwyd gan y Cyngor wrth arfer ei ddyletswyddau statudol.

Yn benodol, y darpariaethau yn y pwerau hyn o dan Ran 3 yw:

- Pŵer i fynnu bod gwybodaeth warchoddedig yn cael ei datgelu ar ffurf ddealladwy (a.49)
- Pŵer i fynnu bod y modd o weld gwybodaeth warchoddedig yn cael ei ddatgelu (a.50 (3) (c))
- Pŵer i fynnu bod y modd o roi gwybodaeth warchoddedig ar ffurf ddealladwy yn cael ei ddatgelu (a.50 (3)(c))

Ni all unrhyw berson ofyn am gael caniatâd priodol nes cael cymeradwyaeth gan y Ganolfan Cymorth Technegol Genedlaethol (NTAC). Dylid ymgynghori â NTAC yn y lle cyntaf drwy'r e-bost ar ripaii@ntac.gsi.gov.uk

Dim ond os cafwyd y wybodaeth warchoddedig yn gyfreithlon y gellir rhoi caniatâd.

PENNOD 6: TELEDU CYLCH CYFYNG

6.1 Mae Cod Ymarfer Diwygiedig Cuddwyllo ac Ymyrraeth ag Eiddo (Awst, 2018), paragraff 3.39 yn nodi: *Lle defnyddir Teledu Cylch Cyfyng Cuddwyllo, ANPR neu gamerau gwylidwraeth eraill mewn dull cuddwyllo cynllunedig, fel rhan o ymchwiliad neu weithrediad penodol, i wyllo person neu grŵp o bobl benodedig, dylid ystyried gwneud cais am awdurdodi gwylidwriaeth dan gyfarwyddyd. Mae cuddwyllo o'r fath yn debygol o arwain at gael gwybodaeth breifat am berson (sef cofnod o'i symudiadau a'i weithgareddau) ac felly mae'n dod o fewn y diffiniad o wylidwriaeth dan gyfarwyddyd. Mae'r defnydd o deledu cylch cyfyng, ANPR a chamerau cuddwyllo eraill yn yr amgylchiadau hyn yn mynd ymhellach na'r defnydd sydd wedi'i fwriadu ar ei gyfer sef ar gyfer atal neu ddarganfod troseddu a gwarchod y cyhoedd yn gyffredinol.*

6.2 Weithiau gellir gofyn i'r ystafell reoli teledu cylch cyfyng ymgymryd â chuddwyllo ar ran y Cyngor neu asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith, sef yr heddlu fel arfer. Gwneir hyn yn unol â'r protocol y mae'r Cyngor wedi'i wneud gyda'r heddlu. Os gwneir ceisiadau o'r fath i gynnal gwylidwriaeth dan gyfarwyddyd, rhaid cael awdurdodiad o dan DRhPY wedi'i lofnodi gan Swyddog Awdurdodi yn yr asiantaeth gorfodi dan sylw a'i ddarparu i Arolygydd Rheoli Teledu Cylch Cyfyng y Cyngor. Datganiad y Swyddog Awdurdodi yw'r un y bydd angen i ystafell reoli teledu cylch cyfyng y Cyngor ei gael os nad yw'r asiantaeth arall sy'n gorfodi'r gyfraith am roi'r holl fanylion sydd ar ffurflen gais y swyddogion ymchwilio i staff yr ystafell reoli, ar sail cyfrinachedd. Er enghraifft, nid yw'n hanfodol fel arfer bod gwybodaeth bersonol gwrthrych yr ymchwiliad yn cael ei rhoi i'r staff teledu cylch cyfyng: cwmpas y wylidwriaeth ei hun sy'n bwysig. Bydd yn dderbyniol cael copi o'r cais gwreiddiol (wedi'i olygu neu beidio) un ai'n bersonol neu drwy e-bost yr asiantaeth.

Rhaid darparu copïau i reolwr yr ystafell reoli teledu cylch cyfyng o unrhyw adolygiad neu ddilead ar gyfer awdurdodiad. Mae hyn yn cynnwys unrhyw awdurdodiadau gan y Cyngor neu asiantaeth arall sy'n gorfodi'r gyfraith, ar ôl golygu unrhyw wybodaeth yn ôl dymuniad yr asiantaeth gorfodi, e.e. gwybodaeth bersonol.

Ni fydd y gofyniad hwn yn gymwys os yw'r wylidwriaeth dan gyfarwyddyd yn ymateb yn uniongyrchol i ddigwyddiadau neu amgylchiadau lle na fyddai'n rhesymol ymarferol gwneud cais am awdurdodiad.

6.3 Gyda golwg ar geisiadau gan wasanaethau mewnol y Cyngor am ymgymryd â chuddwyllo drwy deledu cylch cyfyng, rhaid dilyn yr un broses ag y byddai asiantaeth gorfodi allanol yn ei dilyn. Ni cheir ymgymryd ag unrhyw guddwyllo oni bai fod personél yr ystafell reoli teledu cylch cyfyng wedi cael gweld copi o'r awdurdodiad gwreiddiol wedi'i lofnodi (wedi'i olygu os bydd angen) a chopi o Orchymyn yr Ynadon sy'n cymeradwyo'r awdurdodiad (wedi'i olygu hefyd os bydd angen).

6.4 Rhaid cadw copïau o unrhyw awdurdodiadau (wedi'u golygu neu fel arall) yn ddiogel yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 yn yr ystafell reoli teledu cylch cyfyng a'u cadw'n unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref ar gadw awdurdodiadau a'r polisi hwn.

6.5 Dylech ymgyswrtu â Chod Ymarfer Camerâu Cuddwyllo'r Swyddfa Gartref a Cod Ymarfer y Comisiynydd Gwybodaeth ('*In the Picture – A Data Protection Code of Practice for Surveillance Cameras and Personal Information*'). Mae copïau ar gael o Adran Gyfreithiol y Cyngor.

PENNOD 7: CRAFFU A CHWYNION

- 7.1** Mae dyletswydd ar Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) i adolygu arferion a pherfformiad adrannau Cyngor mewn perthynas â'u gweithgareddau o dan DRhPY. Bydd IPCO yn arolygu'r Cyngor yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â swyddogaethau a dyletswyddau statudol. Bydd hyn yn cynnwys craffu ar awdurdodiadau ar gyfer gwiliadwriaeth dan gyfarwyddyd a Ffynonellau Cuddwybodaeth Dynol a rhai gweithgareddau sy'n ymwneud ag ymchwilio i wybodaeth electronig warchoddedig. Mae'r gweithgarwch olaf yn cael ei arolygu'n rhannol hefyd gan y Comisiynydd Rhyng-gipio Cyfathrebiadau, sydd hefyd yn arolygu gweithgareddau a gyflawnir o dan y system Hawl i Weld Cyfathrebiadau.
- 7.2** Sefydlwyd Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio i ystyried cwynion sydd wedi'u gwneud o dan Ddeddf 2000. Mae gan y Tribiwnlys bwerau i orchymyn i gyrrff sy'n torri'r darpariaethau ynghylch cuddwyllo i dalu digollediad. Rhaid cyflwyno hawliadau o fewn blwyddyn ar ôl y toriad honedig, er bod darpariaethau sy'n galluogi'r tribiwnlys i ymestyn y cyfnod hwnnw. Caiff unigolion wneud cwyn hefyd i'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio drwy ei hanfon i'r cyfeiriad canlynol:-
- Investigatory Powers Tribunal,
PO Box 33220,
Llundain
SW1H 9ZQ.
Ffôn: 0207 0353711
- 7.3** Os yw unrhyw berson yn credu'n rhesymol bod unrhyw weithgaredd gwiliadwriaeth a gyflawnwyd gan neu ar ran y Cyngor wedi cael effaith niweidiol arno, caiff un ai cwyno i Swyddog Monitro'r Cyngor a fydd yn ymchwilio i'r gŵyn, neu wneud cwyn am gamweinyddu i'r Ombwdsmon.
- 7.4** Mae'n amlwg y byddai unrhyw sancsiynau yn erbyn y Cyngor yn gallu gwneud drwg i enw'r Cyngor Sir a chreu cyhoeddusrwydd niweidiol yn y cyfryngau. Mae hynny'n ychwanegol at unrhyw oblygiadau ariannol a allai godi. Oherwydd hyn, mae'n hanfodol bod yr holl Swyddogion yn gyfarwydd â'r goblygiadau eithaf difrifol a allai godi os na ddilynnir y canllawiau yn y Polisi hwn.
- 7.5** Yn ogystal â hyn, mae'r adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yn adrodd ar ddefnydd y Cyngor o'r pwerau hyn unwaith y flwyddyn o leiaf i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor er mwyn sicrhau bod y pwerau'n cael eu defnyddio'n gyson a bod y polisi'n parhau'n addas i'w ddiben.

Adolygir y polisi hwn ddim hwyrach nag Ionawr 2021

DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000

Ffurflen Gwyliadwriaeth dan Gyfarwyddyd – Rhestr Wirio Sicrhau Ansawdd



1. A yw Rhif Cyfeirio Unigryw wedi'i ddynodi ar gyfer y cais? A yw hwn wedi'i roi ar bob tudalen?

2. A yw holl fanylion y Swyddog Ymchwilio, Enw'r Ymchwiliad (os yw'n gymwys) a'r Swyddog Awdurdodi wedi'u cynnwys ar dudalen 1?

3. A yw Blwch 2 (tudalen 2) yn cynnwys esboniad clir a llawn o natur yr ymchwiliad a'r gudd-wybodaeth sydd wedi arwain ato? A fyddai rhywun sydd heb wybodaeth flaenorol am yr achos yn deall beth yw'r ymchwiliad hwn? Os oes modd, enwch y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n rhoi pŵer i chi erlyn neu gynnal yr ymchwiliad.

4. A yw Blwch 3 (tudalen 2) yn cynnwys disgrifiad manwl o'r wylidwriaeth arfaethedig a'r cyfarpar a ddefnyddir?

h.y. Beth a wneir? Pwy fydd yn ei wneud?

Ym mhle y byddant yn ei wneud? Pryd y byddant

yn ei wneud? Sut y byddant yn ei wneud? e.e. amseroedd penodol/ cerbyd cyhoeddus neu breifat/math o gyfarpar/staff cysylltiedig etc.

Dylai'r Swyddog Ymchwilio ystyried atodi cynllun/map

(os yw'n briodol) i roi darlun llawn i'r Swyddog Awdurdodi.

5. A yw Blwch 4 (tudalen 2) yn rhoi enwau, cyfeiriadau a dyddiadau geni (os ydynt yn hysbys) gwrthrychau'r wylidwriaeth? Os nad ydych yn gwybod pwy ydynt, dywedwch hynny.

6. A yw Blwch 5 (tudalen 2) yn egluro'n ddigon manwl beth yw canlyniad arfaethedig y wyliaidwriaeth?

Dylai'r Swyddog Ymchwilio gynnwys yr holl wahanol eitemau o wybodaeth y gobeithir eu cael e.e. ble mae'r troseddwr yn gadael gwastraff anghyfreithlon, pwy sy'n ei gyflogi a pha bryd y mae hyn yn digwydd.

7. Blwch 6 – Yr unig ddiben y gall Awdurdodau Lleol gyfeirio ato'n awr yw 'atal neu ddarganfod troseddu neu atal anhrefn'. Rhaid dileu'r holl seiliau eraill.

Ai hwn yw'r unig ddiben sydd wedi'i ddatgan yn y blwch hwn?

8. A yw Blwch 7 (tudalen 3) yn egluro pam y mae'r wyliaidwriaeth yn angenrheidiol? Rhowch fanylion unrhyw ffyrdd eraill o gael y dystiolaeth y rhoddwyd cynnig arnynt? A yw hyn yn egluro pam y mae gwyliaidwriaeth agored yn annigonol?

Ffactorau i'w cynnwys yw: y trosedd penodol, ei ddifrifoldeb, unrhyw dystiolaeth arall sydd gennych sy'n cysylltu'r targed â'r troseddwr y mae angen ei chadarnhau drwy wyliaidwriaeth.

9. A yw Blwch 8 (tudalen 3) yn nodi pwy arall y gallai'r wyliaidwriaeth effeithio arnynt (ymyrraeth gyfochrog) ac yn egluro'r camau a gymerir i leihau hyn? Hyd yn oed os na allwch ei lleihau, mae angen dangos eich bod wedi ystyried hyn.

10. A yw Blwch 9 (tudalen 4) yn egluro sut y mae'r wyliaidwriaeth yn gymesur, o'i hystyried ochr yn ochr â'r canlyniad arfaethedig? h.y. cydbwyso'r ymyrraeth â'r targed a phobl eraill yn erbyn yr angen am y gweithgaredd yng nghyd-destun gweithrediadau. A yw'n dweud pam na ellir cael y canlyniad arfaethedig mewn ffordd lai ymwithiol?

Dangoswch ei fod yn gymesur drwy ddangos eich bod wedi ystyried:

- *A allwch ddefnyddio dulliau agored/llai ymwithiol?*
- *A ddefnyddiwyd dulliau eraill yn barod?*
- *Beth ellid ei wneud i leihau'r effaith ar y targed e.e. swm y wybodaeth i'w chasglu, y ffordd o gynnal y wyliaidwriaeth, effaith y wyliaidwriaeth ar y gwrthrych, amseru etc.*

Cydbwyswch y cymesuredd hwn yn erbyn:

- *Beth fydd y wyliaidwriaeth yn ei gyflawni?*
- *Natur a difrifoldeb y trosedd.*
- *Effaith y trosedd ar ddiodefwyr a'r gymuned.*
- *Effaith y troseddau ar y pwrs cyhoeddus.*

11. A yw Blwch 10 (tudalen 4) yn nodi a yw'n debygol y ceir 'Gwybodaeth Gyfrinachol'? e.e. wrth ddilyn rhywun, a ydych yn debygol o gyrraedd eglwys neu feddygfa meddyg teulu. *DS Os felly, rhaid cael awdurdodiad gan y Prif Weithredwr a llenwi Blwch 14 (tudalen 6)

12. A yw Blychau 12 a 13 (tudalen 5) yn cynnwys datganiadau llawn gan y Swyddog Awdurdodi ynghylch pam y mae'n credu bod y wylidwriaeth yn angenrheidiol a chymesur ac yn rhoi holl fanylion y wylidwriaeth arfaethedig. A yw'r SA wedi ystyried y cais yn wrthrychol?

Rhaid ystyried Pwy, Beth, Pam, Ble a Phryd – mae angen i'r Swyddog Ymchwilio ddeall yn glir beth y gall a beth na all ei wneud. Caiff y SA nodi materion yn y cais y mae'n rhoi pwys neilltuol arnynt wrth ystyried angenrheidrwydd a chymesured. Os yw'r cais yn aneglur a heb ddigon o fanylion dylai'r SA ystyried ei wrthod.

13. Ar dudalen 6, a yw'r Swyddog Awdurdodi –

- wedi llenwi, llofnodi a dyddio'r awdurdodiad?
- rhoi dyddiad yr adolygiad cyntaf?
- rhoi dyddiad ac amser dod i ben yr awdurdodiad?

14. Ar dudalen 17, os oedd hwn yn awdurdodiad brys, a yw'r Swyddog Awdurdodi wedi llenwi Blwch 15?

Ar ôl llenwi'r ffurflenni, rhaid eu hanfon i'r adran Gwasanaethau Cyfreithiol o fewn 3 diwrnod gwaith ar ôl eu hawdurdodi. Os anfonir y copi caled, ystyriwch y ffordd fwyaf diogel o'i drosglwyddo (e.e. drwy law os yw'n bosibl) a rhybuddiwch y swyddog sy'n dal y Cofnod Canolog fod yr awdurdodiad yn cael ei anfon a chadarnhewch y Rhif Cyfeirio Unigryw.

ATODIAD 2

CWBL GYFRINACHOL

FFURFLEN ASESU RISG FFYNHONNELL CUDDWYBODAETH DDYNOL DRhPY Cyngor Sir Ddinbych

**ASESIAD RISG AR GYFER DEFNYDDIO FFYNHONNELL CUDDWYBODAETH DDYNOL
RHAI CYFLWYNO'R FFURFLEN HON I'R GWASANAETHAU CYFREITHIOL GYDA'R
FFURFLEN DRhPY. RHAI TROGLWYDDO POB FFURFLEN DRhPY Â LLAW A PHEIDIO
Â'I HANFON DRWY'R POST MEWNOL**

Enw'r ffynhonnell:

Rhif cyfeirio unigryw:

A yw'r enw y mae'r ffynhonnell yn ei ddefnyddio'n wahanol i'r uchod?

Ffugenw'r ffynhonnell

Manylion y trafodwr a dyddiad cychwyn ei ddyletswyddau:

Manylion y rheolwr a dyddiad cychwyn ei ddyletswyddau:

A yw'r ffynhonnell yn gweithio i unrhyw awdurdod ymchwilio arall? Os felly, o dan ba enw?

Aseswch a disgrifiwch natur a maint unrhyw risg sy'n gysylltiedig â defnyddio'r ffynhonnell:

Bydd hyn yn cynnwys yr holl ystyriaethau gan gynnwys risgiau personol i'r ffynhonnell a risgiau gweithredol neu foesegol o ddefnyddio'r ffynhonnell:

Disgrifiwch unrhyw drefniadau sydd wedi'u gwneud i leihau'r risg:

Os yw'r ffynhonnell o dan 18 oed, disgrifiwch y trefniadau i gwrdd â gofynion y Gorchymyn DRhPY (Pobl Ifanc) 2000:

Sylwadau'r Swyddog Awdurdodi am y trefniadau uchod:

A yw'r Swyddog Awdurdodi o'r farn bod cyfiawnhad dros wynebu unrhyw risgiau a nodwyd? YDYW/NAC YDYW a rhowch fanylion:

A yw'r risgiau a nodwyd wedi'u hegluro'n briodol i'r ffynhonnell a'u deall ganddi? YDYNT/NAC YDYNT

Dyddiad recriwtio'r ffynhonnell, ac amgylchiadau'r recriwtio. Rhowch ddyddiadau cychwyn dyletswyddau'r trafodwr a'r rheolwr ac unrhyw newidiadau yn y rhain.

Bydd y swyddog canlynol yn gyfrifol am gofnodi'r defnydd o'r ffynhonnell:

A yw'r Awdurdod wedi trosglwyddo'r wybodaeth a gafwyd gan y ffynhonnell i rywun arall? Rhowch fanylion.

A yw'r ffynhonnell wedi cael cynnig neu wedi derbyn tâl, budd neu wobwr? Rhowch fanylion.

Manylion y tasgau a roddwyd i'r ffynhonnell:

Manylion am ddyddiadau cysylltu â'r ffynhonnell a nodiadau am y wybodaeth a gafwyd:

Atodiad 3

Cais am gymeradwyaeth farnwrol i awdurdodiad i gael neu ddatgelu data cyfathrebu, i ddefnyddio ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol neu i gynnal gwylidwriaeth dan gyfarwyddyd. Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 adrannau 23A, 23B, 32A, 32B.

Yr awdurdod lleol:.....

Adran yr awdurdod lleol:.....

Y trosedd yr ymchwilir iddo:.....

Cyfeiriad y fangre neu enw'r gwrthrych:.....

.....
.....

Y dechneg gudd y gofynnwyd amdani: (ticiwch un a rhowch fanylion)

- Data Cyfathrebu**
- Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol**
- Gwylidwriaeth dan Gyfarwyddyd**

Crynodeb o'r manylion

.....
.....
.....
.....
.....
.....

Sylwer: dylid darllen y cais hwn ar y cyd â'r awdurdodiad DRhPY/cais neu hysbysiad DRhPY a atodwyd.

Swyddog Ymchwilio:.....

Swyddog Awdurdodi/Person Dynodedig:.....

Swyddog(ion) sy'n dod gerbron yr YH:.....

Cyfeiriad yr adran sy'n gwneud cais:.....

Rhif ffôn cyswllt:.....

Cyfeiriad cyswllt e-bost (dewisol):.....

Cyfeirnod awdurdod lleol:.....

Nifer y tudalennau:.....

WEDI'I ATODI I'R CAIS HWN Y MAE: COPI O'R CAIS DRhPY GWREIDDIOL WEDI'I LOFNODI.

Gorchymyn wedi'i wneud ar gais am gymeradwyaeth farnwrol i awdurdodiad i gael neu ddatgelu data cyfathrebu, i ddefnyddio ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol neu i gynnal gwyliadwriaeth dan gyfarwyddyd. Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 adrannau 23A, 23B, 32A, 32B.

Llys Ynadon:.....

Ar ôl ystyried y cais, rwyf (ticiwch un):

- wedi fy modloni bod sail resymol i gredu bod gofynion y Ddeddf wedi'u bodloni a'u bod wedi'u bodloni o hyd, a bod yr amodau perthnasol wedi'u bodloni ac felly rwyf yn cymeradwyo rhoddi neu adnewyddu'r awdurdodiad/hysbysiad.
- yn gwrthod cymeradwyo rhoddi neu adnewyddu'r awdurdodiad/hysbysiad.
- yn gwrthod cymeradwyo rhoddi neu adnewyddu'r awdurdodiad/hysbysiad ac yn ei ddileu.

Nodiadau

.....
.....
.....
.....
.....

Rhesymau

.....
.....
.....
.....
.....
.....

Llofnod:

Dyddiad:

Amser:

Enw llawn:

Cyfeiriad y llys ynadon:

Tudalen wag